

MATHEMATEG BELLACH: CANLLAW I RIENI

"Mae sgiliau lefel uchel o fathemateg yn agor drysau i gymaint o yrfaoedd ar gyfer ein dysgwyr ac mae'n rhaid i ni eu cefnogi i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo"

Gweinidog Addysg Cymru

Mathemateg yw'r unig bwnc Safon Uwch sy'n cynnig dau gymwyster Safon Uwch - Mathemateg a Mathemateg Bellach.

Yn eu canllaw 'Informed Choices' o dan "Pa bynciau sy'n rhoi'r mwyaf o opsiynau i chi" mae Grŵp Russell sef 24 o brif Brifysgolion y DU yn rhoi Mathemateg a Mathemateg Bellach ar y brig. Felly, efallai y bydd eich mab/merch yn awyddus i gymryd y ddau bwnc i Safon Uwch.



BETH YW MATHEMATEG BELLACH?

- Mae Mathemateg Bellach yn gwrs Safon UG/ Uwch ac wedi ei gynllunio i'w ddysgu ochr yn ochr â Mathemateg ym Mlwyddyn 12, ond gellir ei gymryd fel lefel UG ym Mlwyddyn 13.
- Gall Mathemateg Bellach gael ei gymryd fel cwrs UG fydd yn 3 modiwl neu fel cwrs cyflawn Safon Uwch fydd yn 6 modiwl (gellir eu cymryd ar draws 2 flynedd neu mewn un flwyddyn ym Mlwyddyn 13) - mae'r modiwlau hyn yn cynnwys Pur Bellach, Mecaneg ac Ystadegaeth.

MANTEISION I'CH PLENTYN

Mae cymwysterau mathemateg pellach yn uchel eu parch ac yn cael croeso cynnes gan brifysgolion. Mae rhai cysiau gradd Prifysgolion Grŵp Russell bellach yn gofyn am gymhwyster Mathemateg Bellach, ac efallai y bydd eraill yn addasu eu gofynion graddio i ffafrio myfyrwyr â Mathemateg Pellach.

- Mae Mathemateg Bellach yn ehangu dealltwriaeth y myfyrwr o Fathemateg. Mae'n dwysáu, yn cadarnhau ac yn cryfhau gwaith Mathemateg Safon Uwch arferol.
- Mae Mathemateg Bellach yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu set o sgiliau gwell. Mae'r cymhwyster yn dangos sgiliau dadansoddi rhagorol. "Mae Mathemateg yn rhoi ystod eang o sgiliau i chi ar sut i ddatrys problemau, rhesymegu a meddwl yn hyblyg. Mae hyn yn arwain at yrfaoedd sydd yn gyffrous, yn heriol ac amrywiol eu natur" Prifysgol Caerdydd.

- Mae Mathemateg Bellach yn lluedu'r dewis o Brifysgol. "Mae astudio Mathemateg Bellach at o leiaf lefel UG yn hanfodol ar gyfer astudio Mathemateg yng Nghaergrawnt ac yn ddymundol iawn ar gyfer Cyfrifiadureg, Economeg, Peirianneg a Gwyddorau Naturiol Ffisegol". Prifysgol Caergrawnt. "Mae'r Brifysgol yn barod i fod yn fwy hyblyg gyda myfyrwyr sydd wedi astudio Mathemateg Bellach ond sydd heb gyrraedd y cynnig safonol". Athro Ashwin, Prifysgol Caerwysg.
- Mae'n helpu y trawsnewid o lefel Safon Uwch i astudio ar lefel gradd.
- Mae amrywiaeth eang o yrfaoedd ar gyfer y rheiny sydd â chefnidir mewn Mathemateg: **Busnes (Logisteg, Dadansoddiad Ariannol, Ymchwil Marchnad a Gweithredol), Cyllid (Yswiriant, Pensiynau, Cyfrifeg, Gwaith Actiwaraid, Bancio), TG (Dadansoddi Systemau, Rhaglennu), Meddygaeth (Ymchwilwyr, Ystadegwyr), Peirianneg (Dyluniad Adeiladau, Cynllunio Trafnidiaeth, Telathrebu) a Swyddi Gwyddonol (Biotechnoleg, Meteoroleg, Eigioneg).**

Mae'r mwyafrif llethol o fyfyrwyr yn teimlo bod astudio Mathemateg Bellach yn brofiad pleruser, gwerth chweil ac ysgogol. Maent yn cyfarfod ac yn gweithio gyda myfyrwyr o'r un anian o bob rhan o'r rhanbarth sy'n mwynhau mathemateg. Byddant yn cael blas ar arddull mwy annibynol o ddysgu, sydd yn baratoad da ar gyfer y brifysgol a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

SUT Y GALL MATHEMATEG BELLACH GAEL EI ASTUDIO?

Ers 2010 mae'r nifer o ganolfannau chweched dosbarth sy'n cynnig Mathemateg Bellach wedi cynyddu yng Nghymru. Er nad yw'r holl ysgolion a cholegau yn cynnig Mathemateg Bellach, flwyddyn ar ôl blwyddyn mae llawer o sefydliadau yn dod o hyd i ffyrdd o helpu eu myfyrwyr. Holwch eich ysgol os oes un o'r opsiynau hyn ar gael ar gyfer eich plentyn, mae llawer o ysgolion yn cynnig cyfuniad o'r opsiynau hyn i ddarparu hyfforddiant Mathemateg Bellach Safon Uwch llawn.

Opsiwn o fewn yr amserlen - cynhelir dosbarthiadau Mathemateg Bellach yn ystod y diwrnod, gall fod yn rhan o gonsortiw (cynnal mewn nifer o leoliadau addysgu)

Opsiwn tu allan i'r amserlen (ond ar gael yn yr ysgol/coleg) - Cynhelir dosbarthiadau Mathemateg Bellach yn ystod amser cinio ac ar ôl oriau ysgol.

Hyfforddiant FMSP Cymru - Os nad yw ysgol/coleg eich plentyn yn cynnig Mathemateg Bellach efallai y byddant yn gallu cael hyfforddiant mathemateg bellach lefel UG/Safon uwch drwy diwtor FMSP

Cymru. Gellir dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Nid yw'r myfyrwyr na'u rhieni'n talu'r ffioedd dysgu.

Mae ein holl diwtoriaid yn athrawon cymwysedig.

Dylai rhieni/myfyrwyr gysylltu â'r ysgol/coleg yn uniongyrchol os hoffent gymryd Mathemateg Bellach trwy'r FMSP Cymru. Gall y prif gyswilt fod yn un o rhain: Pennaeth Mathemateg, cydlynedd chweched dosbarth a/neu'r Cydlynedd Rhaglen Galluog a Talentog.

Mae croeso i rieni siarad â FMSP Cymru ynglyn â threfnu hyfforddiant. Gweler ein tudalen 'Cysylltwch â ni' a siaradwch â'ch cydlynedd ardal FMSP Cymru lleol.



SUT Y GALL RHIENI HELPŪ?

- Ceisiwch ddod i wybod am ddewisiadau Prifysgolion a gyrfaeodd tra bod eich plentyn ym mlwyddyn 10/11. Efallai na fydd eich plentyn yn dod i wybod am Mathemateg Bellach nes ei bod yn rhy hwyr, a gall hyn effeithio ar eu dewis o gwrs Prifysgol.
- Cefnogaeth ac anogaeth - Mae llawer o fyfyrwyr yn cymryd Mathemateg Bellach fel 4ydd neu 5ed pwnc Safon Uwch ac mae rhai myfyrwyr yn ystyried Mathemateg Bellach i fod y pwnc anodded. Efallai na fydd y dosbarthiadau yn cael eu hamserlennu a gallai'r myfyrwyr ddisgwyl cael eu dysgu yn ystod amser cinio neu ar ôl ysgol.
- Ewch i dudalen we www.furthermaths.org.uk/ wales FMSP a dilyn FMSP Cymru ar twitter ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar y gweill. Mae FMSP Cymru yn cynnig ystod o ddsbarthiadau ychwanegol sydd ar gael am ddim i bob ysgol a choleg yng Nghymru a ariennir gan y wladwriaeth. Er bod pob sesiwn yn cael eu hysbysebu i ysgolion a cholegau yn uniongyrchol, a fyddai modd i chi annog eich plant i wirio ein tudalen ddigwyddiadau (www.furthermaths.org.uk/Wales_enrichment) yn rheolaidd i weld y digwyddiadau sydd i ddod.


MAE FMSP YN CYNNIG:

Sesiynau blasu ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn FM.

Dyddiau Astudio ar gyfer pob modiwl Pur Bellach, Mecaneg ac Ystadegaeth - Sesiynau pedair awr Dydd Sadwrn - argymhellir yn gryf ar gyfer myfyrwyr nad oes ganddynt gymorth rheolaidd yn eu hysgol yn ogystal â'r holl fyfyrwyr sydd wedi tanysgrifio ar gyfer hyfforddiant FMSP Cymru.

Sesiynau adolygu - Sesiynau tair awr Dydd Sadwrn sy'n cael eu trefnu yn nes at arholiadau ym Mangor, Caerdydd, Morgannwg, Hwlfordd ac Abertawe. Mae deunyddiau ar-lein ar gael hefyd.

- Cludiant i ddigwyddiadau - mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu ar ddydd Sadwrn. Mae hyn er mwyn peidio tarfu ar wythnos ysgol ac i osgoi problemau gyda staff cyflenwi mewn ysgolion. Ar y llaw arall mae'n golygu y gallai fod angen eich help i fynd â'ch plant yn ôl ac ymlaen i'r sesiynau.



“Roedd gen i diwtoriaid ardderchog yn FMSP Cymru, yr oedd yn hawdd cyfathrebu efo nhw er bod y gwersi ar-lein”

Wayne Edwards
Ysgol Syr Thomas Picton. Cafodd A* mewn Mathemateg Bellach
Coleg Prifysgol Llundain - BSc Mathemateg

BARN RHIAN

BARN RHIAN MYFYRIWR MATEMATEG BELLACH

Chlywais i ddim am Fathemateg Bellach nes i fy merch benderfynu ceisio am le yng Nghaergrawnt i astudio Mathemateg. Roedd yn amlwg na chai ei galw am gyfweiliad hyd yn oed, hebdo - dyma'r chwilio'n dechrau. Nid yw'r pwnc ar gael yn ein ysgol ni, felly FMSP oedd yr unig ddewis. Mae'r dysgu'n digwydd wyneb-yn-wyneb ac ar-lein, ac mae wedi bod yn ardderchog - ac mae fy merch wedi cael A yn ei arholiadau modiwlwr cyntaf.

Mae wedi mwynhau'r dysgu'n fawr iawn a bu'r ffaith iddi orfod gwneud llawer o'r gwaith ar ei phen ei hun yn barataod da iddi astudio'n annibynnol yn y Brifysgol. Profodd y cwrs Mathemateg Bellach iddi hefyd, gymaint y mae'n mwynhau mathemateg ac iddi wneud y dewis iawn ar gyfer y Brifysgol.

Byddai unrhyw blentyn gyda diddordeb mewn Mathemateg neu bwnc wedi ei seilio ar fathemateg yn elwa yn fawr o gymryd Mathemateg Bellach oherwydd ei fod yn lledu eu gwybodaeth a'i fod yn rhoi dechrau gwirioneddol dda ar gyfer astudio ymhellach.

Roedd y staff yn FMSP yn arbennig o gefnogol - yn enwedig felly i'r ysgol. Byddwn i'n dweud wrth rieni am beidio osgoi gofyn am FMSP i'ch plentyn dim ond oherwydd nad yw'r ysgol yn gyfarwydd a'r broses. Daliwch ati ac fe ddont i'w dderbyn!. Diolch i'r hyfforddiant gan FMSP mae fy merch yn ddaliwr cynnig ar gyfer mathemateg yng Nghaergrawnt.

Gwybodaeth ychwanegol:

www.mathscareers.org.uk
www.russellgroup.ac.uk

Am wybodaeth pellach cysylltwch â Caron Flynn:

Ebost: infoFMSPWales@wimcs.ac.uk
Ffôn: 01792 606845

www.furthermaths.org.uk/wales